COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 29 MAI 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Easterbrook | GH Haines | D T Harrison | M L Hughes |
| A Wathan | | | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | C L C Davies | H Griffiths | S J Griffiths |
| D M Hughes | M R John | W J Kendall | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | R Williams | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lee Evans | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Prif Swyddog Priffyrdd |
| Dion Douglas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr – Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cymorth Cynllunio |
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

## 117. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd A Berrow. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 118. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Gwnaed y Datganiadau canlynol:<br>Y Cynghorydd A Wathan – Eitem 8 – Buddiant personol, gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont nad yw yn cymryd rhan mewn materion cynllunio<br>Y Cynghorydd S Easterbrook – Eitem 8 – Buddiant personol, gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont nad yw yn cymryd rhan mewn materion cynllunio. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 119. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo 9 Gorffennaf 2025 fel dyddiad ar gyfer unrhyw ymweliadau safle fyddai'n codi yn ystod y cyfarfod, neu a fyddai'n cael eu nodi gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 120. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 23 Ionawr a 20 Chwefror 2025 fel cofnodion gwir a chywir.<br><br>Holodd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol i drafod materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol yr adroddwyd yn ôl amdanynt wrth y Pwyllgor. Atebwyd y cwestiwn hwn gan y Cyfreithiwr – Cynllunio, gyda'r eglurhad y gallai cyfarfod yn y dyfodol gynnwys diweddariad i drafodaeth flaenorol fel Eitem Frys. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

| | |
|---|---|
| | |

**121. Siaradwyr Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Siaradodd y siaradwyr cyhoeddus canlynol ar y ceisiadau cynllunio a grybwyllir isod:-<br><br>P/24/80/FUL – Y Cynghorydd David Unwin (Aelod Ward) Cerys Matthews (asiant yr ymgeisydd). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

**122. Taflen Gwelliant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Dalen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, a gallu ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

**123. Canllawiau Pwyllgor Datblygiad a Rheoli**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau'n amlinellu canllawiau i Aelodau ar faterion Rheoli Datblygu a Chynllunio |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

**124. P/25/8/FUL - 1 Gerddi Gelli, Pen-y-bont Ar Ogwr CF31 3EG**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod yn amodol ar yr Amodau oedd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau: -<br><br>CYNNIG: Newid defnydd yn Dŷ 6 ystafell wely mewn Amlfeddiannaeth. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

**125. P/24/80/FUL - Tir Wrth Ymyl Hen Chwarel Stormygu, Heol-y-splot, Stormy Down CF33 4RS**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod yn amodol ar y Amodau oedd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau: -0<br><br>CYNNIG: Gwaith peirianneg i adeiladu mannau prosesu, mannau storio, byndiau acwstig a byndiau sgrinio gweledol, codi gwaith ailgylchu agregau a rhwystrau acwstig, adeiladu swyddfa pont bwyso, gwaith ategol a thirlunio (rhannol ôl-weithredol). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

**126. Apeliadau**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | (1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor fel y dangoswyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau: -<br><br>Rhif yr Apêl – 2025<br>Testun yr Apêl – Ychwanegu garej newydd ddatgysylltiedig a throi'r garej fewnol bresennol yn lle byw: 3 Brook Vale<br><br>(2) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol wedi rhoi cyfarwyddyd i'w CANIATÁU YN RHANNOL/GWRTHOD YN RHANNOL: -<br><br>Rhif yr Apêl – 2015<br>Testun yr Apêl – Newid y wal derfyn am un o fwy o uchder; cadw'r ystafell chwarae bren: 5 Belmont Close Maesteg<br><br>(3) Bod yr Archwilydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol wedi rhoi cyfarwyddyd i'w GWRTHOD, yn amodol ar yr amodau: -<br><br>Rhif yr Apêl – 2019<br>Testun yr Apêl – Dymchwel garej yn rhannol ac adeiladu estyniad dau lawr yn y cefn i ddarparu ystafell deuluol ac ystafell gyfleustodau ar y llawr gwaelod a 2 ystafell wely ar y llawr cyntaf, creu 1 lle parcio ychwanegol yn y ffrynt ac ymestyn y palmant wedi ei ollwng : 98 Yr Ysfa Maesteg. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 127. Adroddiadau I'w Nodi - Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, oedd hysbysu’r Pwyllgor Rheoli Datblygu am ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ynghylch y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Tai Fforddiadwy drafft.<br><br>Hefyd, roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y bwriad i gyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Fforddiadwy (Atodiad 1) i'r Cyngor i ofyn am iddynt gael eu mabwysiadu er mwyn cefnogi'r Polisïau Tai Fforddiadwy o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fabwysiadwyd (RLDP, Mawrth 2024).<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi nodi cynnwys yr adroddiad, drafft terfynol y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Fforddiadwy newydd (Atodiad 1) a chrynodeb o atebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Fforddiadwy drafft, ynghyd â'r gwelliannau o ganlyniad i hynny oedd ynghlwm fel Atodiad 2. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 128. Rhestr Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylid nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn amlinellu Sesiynau Hyfforddi yn y dyfodol i Aelodau am Gynllunio a Datblygu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

## 129. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mai 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:21